@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613   Ffacs / *Fax:* 01970 636742

**Diweddariad o'r sefyllfa coronafeirws -** ers yr ail wythnos yn Ionawr rydym wedi cael dros 50 achos o coronafeirws yn yr ysgol. Yr wythnos hon oedd yr wythnos fwyaf heriol i'r Ysgol Gymraeg gyda 11 o staff yn absennol ganol wythnos (5 o athrawon a 6 Cynorthwydd Dysgu). Rwy'n ddiolchgar i'r staff am fynd yr ail filltir er mwyn sicrhau ein bod yn medru cadw pob dosbarth yn agored i ddysgu wyneb yn wyneb.

**Symptomau** – cofiwch na ddylech ddanfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

**LFT Positif** - os fydd eich plentyn yn derbyn canlyniad LFT positif yna mae angen i chi uwch lwytho'r wybodaeth i ap y GIG fel bod modd i 'Profi ac Olrhain' gael dyddiad penodol ar gyfer gorffen hunan ynysu.

**Wythnos Iechyd Meddwl Plant, Chwefror 7fed - 13eg.** Mi fyddwn yn trefnu nifer o weithgareddau i gefnogi iechyd meddwl ac emosiynol disgyblion dros yr wythnos nesaf. Mi fydd pob dosbarth yn anelu i wneud un gweithgaredd pob dydd. Mi fydd y rhain yn cynnwys trafod teimladau, gweithgareddau corfforol, cyfle i fyfyrio ar beth sy'n eu gwneud yn hapus, trafod pryderon, sut mae helpu disgyblion sy'n poeni am rywbeth, gweithgareddau celf, hoff gerddoriaeth, teithiau lles o gwmpas yr ysgol, garddio a nifer o bethau arall diddorol.




**Ar ddydd  Mercher rydym yn annog pawb i ddod i'r ysgol mewn gwisg sy'n gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn hapus –** yn naturiol mi fydd hyn yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb.

**Cogurdd, Blynyddoedd 4, 5 a 6** – hoffwn atgoffa disgyblion Blynyddoedd 4, 5 a 6 o weithgaredd Cogurdd ar ddydd Mercher, Chwefror 9fed, 3.30 – 4.30. Llythyr yn cynnwys y manylion wedi ei ddosbarthu ddydd Llun.  Danfonwch e-bost ataf os yw eich plentyn yn dymuno cymryd rhan.

**Gwyliau Hanner tymor** – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Gwener, Chwefror 18fed ac yn ail agor ar ddydd Llun, Chwefror 28ain.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth**

**03/02/2022**

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

***Coronavirus update -*** *since the second week of January we have had over 50 cases of coronavirus in the school. This week was the most challenging week for us at Ysgol Gymraeg with 11 staff absent mid-week (5 teachers and 6 Teaching Assistants). I am grateful to the staff for going the extra mile to ensure that we can keep all classes open for face-to-face teaching*

***Symptoms –*** *please remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.*

***Positive LFT -*** *if your child receives a positive LFT result then you need to upload the information to the NHS app so that Track and Trace can have a specific end date for self-isolation.*

***Children's Mental Health Week, February 7th - 13th.*** *We will be organizing a number of activities to support pupils' mental and emotional health over the next week. Each class will aim to do one activity every day. These will include discussing feelings, physical activities, an opportunity to reflect on what makes them happy, discussing concerns, how to help pupils who are worried about something, art activities, favourite music, well-being trips around the school, gardening and many other interesting things.*




***On Wednesdays we encourage everyone to come to school in an outfit that makes them feel comfortable and happy -*** *naturally this will mean something different for everyone.*

***Cogurdd, Years 4, 5 and 6 -*** *I would like to remind pupils in Years 4, 5 and 6 of the Cogurdd activity on Wednesday, February 9th 3.30 - 4.30. A letter outlining the details was distributed on Monday. Please email me if your child would like to take part.*

***Half Term Holidays -*** *the school will close for half term holidays on Friday, February 18th and re-open on Monday, February 28th.*

***If you have any worries regarding your child's wellbeing or education then please contact me immediately.***

***R C Williams, Headteacher***

**03/02/2022**